# Adroddiad ar

# Traed Bach Tywyn

**Minffordd Road**
**RAF Valley**
**Caergybi**
**Ynys Mon**
**LL65 3LW**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Traed Bach Tywyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Traed Bach Tywyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Traed Bach Tywyn |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ffion Thomas |
| Person â gofal | Anne-Marie Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 12 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:30 y.b. – 3:00 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 6 Mai 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolgiad cyntaf gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/02/2024 |
| Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg neu lle mai Cymraeg yw ail iaith y cartref. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Datblygu'r defnydd o asesiadau ac arsylwadau ymhellach er mwyn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n diwallu anghenion bob plentyn

A2. Sicrhau bod bob ymarferydd yn cyfrannu'n weithredol i gynllunio profiadau dysgu a chwarae i'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Dim mewn gweithgarwch dilynol**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni/gofalwyr ac yn awyddus i ymuno'n syth i chwarae gyda'i ffrindiau wrth gyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus wrth fynegi eu hunain ac yn ffyddiog y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn hyderus i ddweud os nad ydynt eisiau tôst ar ôl cyrraedd, gan wybod bydd ymarferwyr yn parchu eu dymuniadau. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas y gweithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae gan y plant berthynas bositif gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallant ofyn am gymorth neu gysur pan maent ei angen. Er enghraifft, maent yn mynd syth at yr ymarferwyr am gysur os ydynt yn syrthio wrth chwarae tu allan ac yn gofyn am gymorth i agor pecynnau bwyd. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, sy'n creu sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos i'r ymarferwyr pan yn llwyddo i ysgrifennu eu henw yn annibynnol ac yn ymfalchïo wrth dderbyn canmoliaeth am eu hymdrechion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasol yn dda ac yn cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn hapus iawn i chwarae wrth ochr eu cyfoedion, yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau yn eu chwarae ac yn sgwrsio'n frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n llwyddiannus i adeiladu tŵr uchel gan drafod lle i roi'r blociau a sut i wneud y tŵr yn gryf. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u ffrindiau ac yn dysgu sut i gymryd tro. Er enghraifft, wrth rolio'r ceir bach i lawr y ramp ar y garej maent yn hapus i aros i'w ffrindiau gymryd tro cyn dewis car arall.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft,maent yn cael llawer o hwyl wrth arbofi gyda'r cynhwysyddion gwahanol yn y twb dŵr a'u defnyddio i gario dŵr i greu pwll i neidio a sblasio ynddo gyda'u hesgidiau glaw. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal byd bach.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau'n effeithiol. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau annibynnol, er enghraifft wrth wisgo cotiau ac esgidiau glaw cyn mynd i chwarae yn y dŵr. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleodd cyson i ymarfer eu medrau annibynnol yn ystod amser byrbryd ac amser cinio.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

**Prif arfarniad**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae bob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd, yn glanhau'r byrddau cyn amseroedd bwyd ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol wrth newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant dreulio amser yn chwarae tu allan yn yr awyr iach, yn annog plant i fwyta byrbrydau iach ac yfed digon o ddŵr,

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw'n annwyl a'u trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol cadarn wrth chwarae a rhyngweithio gyda'r plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn casglu gwybodaeth defnyddiol am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i gyfeirio plant yn amserol am gymorth ychwanegol gan asiantaethau allanol, os oes angen. O

ganlyniad, mae gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol drwy gynnal arsylwadau rheolaidd. Maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu â rhieni ar ddiwedd bob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau. Rhennir gwybodaeth yn gyson drwy dudalen gaeedig ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy negeseuon preifat. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r arweinydd yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae effeithiol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion unigol y plant yn drylwyr a phwrpasol. Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac mae hyn yn sail gadarn iawn i'w gwaith. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i ofynion Cwricwlwm i Gymru drwy gynnig cyfleoedd i'r plant arwain eu dysgu a'u chwarae ac i wneud dewisiadau eu hunain. Maent yn dilyn diddordebau'r plant yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno themau byrion. Er enghraifft, llwyddodd yr ymarferwyr i gynllunio ystod dda o brofiadau buddiol yn ystod diwrnod eira yn ddiweddar, gan gynnwys creu dyn eira yn yr ardal allanol, paentio a chreu murluniau o rew. Er hyn, nid yw'r arweinydd bob tro'n cynnwys ymarferwyr yn ddigon rheolaidd wrth gynllunio'r brofiadau dysgu a chwarae.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r chwarae a'r dysgu yn effeithiol a sensitif, gan addasu eu cefnogaeth yn unol ag anghenion y plant. Maent yn modelu defnydd o'r iaith Gymraeg yn gyson dda gan ddefnyddio sgwrsio a chanu yn effeithiol i ddatblygu geirfa'r plant. Er enghraifft, maent yn modelu y defnydd o eiriau pwrpasol fel rolio, gwasgu, tynnu, bach, mawr, tew a thenau yn yr ardal hydrin. Maent yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn sgwrsio gyda nhw'n gyson gan ddefnyddio ystod o eirfa perthnasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith y plant. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro'n holi'r plant yn ddigon effeithiol er mwyn ehangu eu dealltwriaeth a chefnogi eu medrau.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau buddiol i ddatblygu medrau'r mewn cyd-destunau sbardunol a hwyliog fel eu bod yn dysgu wrth fwynhau chwarae. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar yn grefftus, trwy arbrofi gyda sebon eillio i greu siapau a dechrau arbrofi sut i greu llythrennau. Mae bron pob un o'r plant yn dangos eu mwynhad wrth fynd i'r ardal tu allan a chymeryd rhan mewn chwarae pwrpasol ac effeithiol sydd yn annog eu datblygiad corfforol. Er enghraifft, maent yn neidio mewn pwll o ddŵr, agor a chau ymbarél a thywallt dŵr o un cynhwysydd i'r llall. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddewis yn annibynnol pa offer corfforol mawr addas i'w ddefnyddio, er enghraifft trwy ddewis beics, sgwteri, sleid, ffram ddringo isel ar beiciau balans. O ganlyniad, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu dangos cydsymud corfforol cryf a chadarn sydd yn addas ar gyfer eu hoedran. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant ymarfer eu sgiliau digidol o fewn eu chwarae bob dydd, gan wneud defnydd effeithiol o

declynnau a rhaglenni digidol sydd yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu yn ddefnyddiwr digidol hyderus.

Mae'r ymarferwyr yn casglu gwybodaeth eang gan rieni a gofalwyr ar ddechrau tymor yr Hydref. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr ddarlun cynhwysfawr o'r plant ac maent yn gallu cynllunio i'r dyfodol mewn modd sensitif a phwrpasol sydd yn ymateb i ddiddordebau ac anghenion unigol y plant. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ac yn asesu cynnydd y plant yn rheolaidd ac yn ofalus. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn eu llyfrau taith ddysgu yn fanwl iawn, gan nodi cryfderau'r plant a'r meysydd i'w gwella. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hyn ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn trefnu gweithgareddau diddorol i'r plant, sy'n eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i werthfawrogi rhyfeddodau'r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn arsylwi ar effaith dyfrio hadau ac ar ddiwrnod gwyntog o fewn eu hardal leol. Maent hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol trwy ddarparu gweithgareddau priodol iddynt fel creu cardiau i ddathlu dydd Santes Dwynwen. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau amrywiaeth eang a phwrpasol o adnoddau megis llyfrau ac arteffactau sydd yn annog datblygiad moesol y plant. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo ymhellach gan yr ymarferwyr wrth atgyfnerthu a dwyn i gôf y straeon mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth ddatrys anghydfod rhannu yn yr ardal garej.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant drwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae gwiriadau o'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu cwblhau'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bresennol a bod offer yn addas ar gyfer y plant. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, wrth ysgubo'r tywod yn syth er mwyn lleihau'r risg o lithro ac wrth gadw unrhyw lestri neu offer oedd wedi torri allan o afael y plant yn syth.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant a ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu yn effeithiol i hybu datblygiad y plant ac i gynnig profiadau chwarae cyfoethog. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol ac wedi eu hailgylchu ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae llestri te go iawn, tegell a ffôn wedi eu hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio lliwiau naturiol, sy'n creu

awyrgylch tawel a heddychlon ac yn helpu'r plant i fedru ymgolli yn eu chwarae. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei datblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd cyffrous i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, cegin fwd ac ardal byd bach gyda cheir bach a phridd. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod digonedd o gyfleodd i blant fedru datblygu eu sgiliau corfforol a chymryd risg derbyniol. Er enghraifft, cydbwyso wrth ddefnyddio'r sleid a'r ffram ddringo.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer ac adnoddau yn hybu annibynniaeth y plant, er enghraifft, drwy sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu'r plant i ddysgu defnyddio'r toiled yn annibynnol. Mae dewis o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys amrywiaeth dda o lyfrau, doliau a jig-sôs. Mae hyn yn helpu'r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o'u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol a chroesawgar o fewn y lleoliad, ac o ganlyniad, mae'r awyrgylch yn un sy'n sicrhau bod yr ymarferwyr yn hapus a'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cyfrannu at ddarparu gofal o ansawdd da yn y Gymraeg i blant gan ganolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae a sbarduno chwilfrydedd y plentyn unigol.

Mae arweinwyr yn gweithredu system recriwtio diogel yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr cymwys yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r ymarferwyr yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant proffesiynol er mwyn gwella'u hymarfer, er enghraifft trwy fynychu cyrsiau trochi'r iaith Gymraeg ac iaith arwyddo. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn gwneud eu gorau dros y plant ac yn cymhwyso eu dysgu yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn creu partneriaethau lleol cadarn i ehangu ymwybyddiaeth ymysg y plant o'u hardal leol.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithlon i werthuso perfformiad ymarferwyr, gan oruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o gefnogaeth a mewnbwn gan asiantaethau allanol a thimau arbenigol y blynyddoedd cynnar. O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r staff yn gweithredu ar unrhyw gyngor sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a lles plant. Mae'r diwylliant cadarnhaol yma yn treiddio i'r drefn o hunanwerthuso ac yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau'r holl rhanddeiliaid. Maent yn adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Mae'r arweinydd yn darparu cylchlythyr rheolaidd i rieni a gofalwyr sy'n

cynnwys gwybodaeth perthnasol am waith y lleoliad. Yn ogystal, maent yn rhannu gwybodaeth defnyddiol yn gyson gyda rhieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plant.

Mae’r arweinwyr yn neilltuo cyllid yn briodol ac yn gwneud defnydd cynhwysfawr o gefnogaeth elusennol a grantiau er mwyn sicrhau gwelliant mewn ansawdd. Er enghraifft, maent wedi wedi buddsoddi offer ar gyfer yr ystafell sensori i ymateb i anghenion y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Ebrill 2024